# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-12-06(p5)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 5 Gorffennaf 2006
### Lleoliad: Siambr, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Deintyddiaeth yn y GIG

#### Pwrpas

Rhoi’r newyddion diweddaraf ynghylch y nifer sydd wedi llofnodi’r contract deintyddol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2006.

#### Crynodeb

Yn y cyfarfod ar 11 Mai (HSS(2)-08-06 o dan adroddiad y Gweinidog – Adran 11), gofynnwyd i’r Gweinidog gyflwyno papur ar nifer y deintyddion sydd heb lofnodi’r contract deintyddol newydd; eu lleoliad daearyddol; faint o gleifion yr oedd hyn yn effeithio arnynt; ac, o’r deintyddion hynny, faint ohonynt oedd yn rhan o gynllun peilot y Gwasanaeth Deintyddol Personol (PDS). Gwelir y wybodaeth a gafwyd gan y Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) yn Atodiad 1.

Mae’r Byrddau Iechyd Lleol eisoes wedi dechrau gwneud i fyny am yr hyn a gollwyd gan fod mwy o bobl yn gallu gweld deintydd trwy drefniadau peilot y PDS neu eu bod yn ychwanegu at y ddarpariaeth yn y GIG gyda’r adnoddau a ryddhawyd. Ar 9 Mehefin, cyhoeddais hefyd y byddai £3 miliwn yn cael ei dargedu’n benodol at yr ardaloedd lle’r oedd hi’n fwyaf anodd gweld deintydd.

Bu peth camddeall ar y ffigurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG am gyfanswm y deintyddion yng Nghymru a oedd yn dangos gostyngiad dros y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2006. Mae’r ffigurau’n cyfeirio’n unig at y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol ac nid ydynt yn cynnwys y deintyddion sydd yng nghynlluniau peilot y Gwasanaeth Deintyddol Personol. Deintyddion sy’n mynd i’r PDS sy’n gyfrifol am y gostyngiad yn nifer y deintyddion GDS. Mae’n debyg bod y ffigurau’n dod o dablau chwarterol rheolaidd y gweithlu ond nid ydynt yn rhoi’r darlun cyflawn ac, mewn gwirionedd, mae nifer y deintyddion wedi codi. Rhwng 31 Rhagfyr 2005 a 31 Mawrth 2006, bu gostyngiad o 313 yn nifer deintyddion y GDS i 678; ond bu cynnydd o 13 yn nifer deintyddion y GDS a’r PDS i 1,087.

### Materion i’w hystyried

#### Papur i’w nodi.

#### Goblygiadau ariannol

Mae’r Gyfarwyddiaeth Adnoddau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweld y papur hwn ac wedi nodi nad oes goblygiadau ariannol yn codi’n uniongyrchol ohono (CBCW2625).

**Themâu trawsbynciol**

Nid oes i’r papur hwn oblygiadau o ran cyfle cyfartal na datblygiad cynaliadwy.

**Camau i’w cymryd gan y pwyllgor pwnc**

**Papur i’w nodi.**

Brian Gibbons
Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Person cyswllt: Andrew Powell-Chandler, Gwasanaethau Deintyddol ac Optometrig, ffôn 029 2082 1689

**Atodiad 1**

| Bwrdd Iechyd Lleol | Nifer y deintyddion heb lofnodi’r contract newydd | Nifer y deintyddion ar gynllun peilot y PDS oedd heb lofnodi’r contract newydd | Wedi cofrestru ar 31.3.06 | Wedi datgofrestru | Cyfanswm net o gyfrif y rhai oedd wedi dagofrestru |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 38,340 | 0 | 38,340 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 82,897 | 5,755 | 77,142 |
| Caerffili | 0 | 0 | 94,837 | 3,819 | 91,018 |
| Caerdydd | 5 | 0 | 180,354 | 4,619 | 175,735 |
| Sir Gaerfyrddin | 3 | 0 | 48,591 | 5,199 | 43,392 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 22,006 | 0 | 22,006 |
| Conwy | 1 | 0 | 34,702 | 125 | 34,577 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 52,842 | 0 | 52,842 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 41,980 | 0 | 41,980 |
| Gwynedd | 3 | 0 | 30,252 | 8,052 | 22,200 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1 | 0 | 24,751 | 0 | 24,751 |
| Merthyr Tudful | 1 | 0 | 27,074 | 3,000 | 24,074 |
| Sir Fynwy | 7 | 0 | 45,550 | 15,238 | 30312 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 | 0 | 73,980 | 3,700 | 70,280 |
| Casnewydd | 0 | 0 | 81,890 | 800 | 81,090 |
| Sir Benfro | 3 | 0 | 25,421 | 1,889 | 23,532 |
| Powys | 0 | 0 | 55,481 | 0 | 55,481 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 0 | 145,622 | 1,811 | 143,811 |
| Abertawe | 0 | 0 | 144,852 | 5,000 | 139,852 |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 54,071 | 8,100 | 45,971 |
| Torfaen | 0 | 0 | 42,853 | 300 | 42,553 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 59,405 | 6,900 | 52,505 |
| Cyfansymiau | 26 | 0 | 1,407,751 | 74,307 | 1,333,444 |